Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**ATODIAD A**

**RHEOL SEFYDLOG 30 DATGANIAD YSGRIFENEDIG: BIL CYMRU: GWELLIANNAU LLYWODRAETH Y DU A GYFLWYNWYD AR GYFER CAM PWYLLGOR TŶ'R ARGLWYDDI**

| **Rhif y Cymal / Atodlen** | **Rhif y Gwelliant** | **Pwnc y Gwelliant** |
|---|---|---|
| Atod 4 | 30-35 | Rhoi i Weinidogion Cymru bwerau i reoleiddio cychod pysgota Cymru pa le bynnag y bônt, gan gynnwys y tu allan i Gymru a 'Pharth Cymru'. |
| Atod 4 | 35A | Yn darparu bod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 272 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 sy'n ymwneud â chymorth ariannol ar gyfer cludo nwyddau ar (a) ddyfrffyrdd mewndirol sy'n rhannol yng Nghymru a (b) y môr cyfagos i Gymru yn rhai y gellir eu harfer yn gydredol neu ar y cyd â Gweinidogion Cymru (gweler Gwelliant 107B hefyd). |
| Cym 27 | 83A | Yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan adran 6(2), (3) a (9) o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 (i ddiwygio'r ddarpariaeth wreiddiol yn y bil i ddiwygio adran 6(9)(g), (i) a (j) yn unig). |
| Cym 27 | 83B | Yn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i wneud rheoliadau ar gofrestru gwasanaethau bysiau contract ansawdd |
| Cym 29 | 83D | Yn trosglwyddo swyddogaethau sydd i'w harfer gan un o Weinidogion y Goron o dan adran 1 o Ddeddf Harbyrau (Benthyciadau) 1972 i Weinidogion Cymru |
| Cymal newydd ar ôl Cym 48 | 107B | Yn diwygio adran 272 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 fel bod pwerau i roi cymorth ariannol ar gyfer cludo nwyddau ar (a) ddyfrffyrdd mewndirol Cymru a (b) y môr cyfagos i Gymru yn cael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru. Gellir arfer y pwerau hynny yn gydredol â Gweinidogion y DU, ac eithrio pan fo'r ddyfrffordd fewndirol berthnasol yn gyfan gwbl yng Nghymru. Mewn achos o'r fath, mae'r pŵer i'w arfer gan Weinidogion Cymru yn unig. |
| Cym 55 | 121 | Mae hyn yn golygu bod yr adrannau a restrir, sy'n ymdrin â chaniatâd ar gyfer datblygu cysylltiedig â gorsafoedd cynhyrchu sydd â chapasiti o 350MW neu lai, yn dod i rym ddeufis ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf ei phasio |

**Nodyn**

Gellir gweld rhifau'r gwelliannau trwy'r dolenni a ganlyn:

- Rhestr wedi'i gosod mewn trefn HL Bill-63II: Gwelliannau rhif 23-51
  Hyperddolen Publication: HL Bill 63-II Second Marshalled list of amendments for

Committee

- Rhestr wedi'i gosod mewn trefn HL Bill-63III:  Gwelliannau rhif 52-122. Hyperddolen Publication: HL Bill 63-III Third marshalled list of amendments for Committee